

Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026 o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

1 Rhagfyr 2025

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026 ("y Cod Ymarfer") yn nodi'r gofynion a'r canllawiau y mae rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â nhw wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").
- 1.2 Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o Ddeddf 2014 ac adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006").
- 1.3 Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym cymaradwy mewn perthynas â Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan bwerau a nodir yn Deddf 2006 i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion yn y Cod Ymarfer hwn wrth arfer eu priod swyddogaethau.
- 1.4 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â'r Cod Ymarfer ynghylch gwasanaethau gofal a chymorth sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac sy'n cael eu rheoleiddio ganddi. At ddibenion y Cod Ymarfer hwn, mae i'r term 'gofal a chymorth' yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 3 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae adran 145 o Ddeddf 2014 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu ragor o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Caiff cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n disgrifio nodau, amcanion a materion eraill. Pan fydd yn arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdod lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.
- 3.2 Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o Ddeddf 2014 ac adran 2 o Ddeddf 2006.

- 3.3 Mae adran 12 o Ddeddf 2006 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ynglŷn ag arfer eu swyddogaethau. Gall cyfarwyddydau a ddyroddir o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y Cod Ymarfer.
- 3.4 Mae adran 19 o Ddeddf 2006 yn nodi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi Cyfarwyddydau i ymddiriedolaethau'r GIG ynglŷn ag arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Gall Cyfarwyddydau a ddyroddir o dan yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Ymarfer.
- 3.5 Mae'r Cod Ymarfer yn dilyn gweithdrefn negyddol ddrafft y Senedd a chynigir y daw i rym ar 31 Mawrth 2026 drwy wneud Gorchymyn Diwrnod Penodedig.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben y Cod Ymarfer yw gosod gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2014. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cynnig canllawiau ac arweiniad i awdurdodau lleol ynglŷn â'r materion hyn.
- 4.2 Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn darparu canllawiau i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan Ddeddf 2006, fel comisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Bydd Cyfarwyddydau yn cael eu dyroddi i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt arfer eu swyddogaethau yn unol â darpariaethau perthnasol y Cod Ymarfer arfaethedig i sicrhau bod grym cyfreithiol cymaradwy rhwng awdurdodau lleol a chyrff y GIG yng Nghymru.
- 4.3 Mae'r Cod Ymarfer yn ymwneud â chomisiynu'r gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a ganlyn sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016:
- Gwasanaethau cartrefi gofal (ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gofal nyrsio),
 - Gwasanaethau llety diogel,
 - Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd,
 - Gwasanaethau maethu,
 - Gwasanaethau mabwysiadu,
 - Gwasanaethau lleoli oedolion,
 - Gwasanaethau eirioli,
 - Gwasanaethau cymorth cartref,
 - Gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig.

4.4 Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.

4.5 Dylid darllen y Cod Ymarfer hwn ar y cyd â'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer*¹ a ddaeth i rym ar 1 Medi 2024 (ac unrhyw fersiynau dilynol).

4.6 Gellir defnyddio'r Cod Ymarfer hwn fel canllawiau arferion da mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig nad ydynt wedi eu comisiynu gan awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru, a gwasanaethau gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu rheoleiddio a ddarperir ar ran awdurdod lleol gan y trydydd sector a'r sector preifat.

4.7 Mae'r Cod Ymarfer yn cwmpasu'r canlynol:

- Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- Ymdrin â phryderon a gaiff eu huwchgysgu mewn gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- Datgomiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn strategol.
- Cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau.
- Strwythurau, prosesau a chamau gweithredu a argymhellir.

5. Ymgynghori

5.1 Rhwng 7 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ynghylch y Cod Ymarfer drafft. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cyrff cynrychioliadol y sector, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchlythyr Arolygiaeth Gofal Cymru. Gellir dod o hyd i'r ddogfen ymatebion i'r ymgynghoriad [yma](#).

¹ [*Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer*](#)

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

Mae dau opsiwn wedi eu hystyried yn y dadansoddiad o'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â dyroddi Cod Ymarfer ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon, a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Mae'r ddau opsiwn fel a ganlyn:

Opsiwn un: gwneud dim – cadw'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009.

Gan mai dyma'r "opsiwn gwneud dim", byddai'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* yn cael eu cadw. Dim ond i ddarparwyr gwasanaeth cartrefi gofal oedolion sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru y mae'r canllawiau statudol hyn yn gymwys. Dim ond ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon a chau cartrefi gofal oedolion y mae'r canllawiau hyn.

Opsiwn dau: Dyroddi Cod Ymarfer newydd o dan Ddeddf 2014 sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig. Cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion perthnasol yn y Cod Ymarfer (dyma'r opsiwn a ffefrir).

O dan yr opsiwn hwn, byddai Cod Ymarfer newydd yn cael ei ddyroddi o dan Ddeddf 2014, gan osod gofynion ar awdurdodau lleol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r Cod Ymarfer newydd o dan bwerau yn Neddf 2006, gan felly ddarparu grym cyfreithiol cymaradwy ag awdurdodau lleol.

Mae'r Cod Ymarfer yn gyson ac yn gyfredol â'r ddeddfwriaeth bresennol ac mae'n adlewyrchu ethos Deddf 2014 a Deddf 2016 ar gyfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, llais a rheolaeth unigol, a gwelliant parhaus.

Bydd y Cod Ymarfer yn gymwys i'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi gofynion i sicrhau cysondeb ar lefel genedlaethol, gan hefyd gefnogi hyblygrwydd ar gyfer prosesau lleol a rhanbarthol.

Mae'r Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ac arweiniad ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad yn achos gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir, gan hyrwyddo pwysigrwydd ymwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys canllawiau ac arweiniad ar ddatgomiynu gwasanaethau ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl a chynnal eu llesiant.

Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

7. Costau

Opsiwn un: gwneud dim – cadw'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009.

Gan mai dyma'r "opsiwn gwneud dim", byddai'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* yn cael eu cadw. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Opsiwn dau: Dyroddi Cod Ymarfer newydd o dan Ddeddf 2014 sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig. Cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion perthnasol yn y Cod Ymarfer (dyma'r opsiwn a ffefrir).

O dan opsiwn dau, bydd cost i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o ran amser staff i ymgyswrtio â chynnwys y Cod Ymarfer ac i adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau. Rydym yn rhag-weld y bydd y gwaith hwn yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, uwch reolwyr comisiynu, rheolwyr contractau, swyddogion monitro contractau, arweinwyr sicrhau ansawdd a swyddogion cyfreithiol a chaffael. Ar lefel sefydliadol, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru adolygu eu polisiau a'u gweithdrefnau er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer.

Ar gyfartaledd, amcangyfrifir (er y cydnabyddir bod capasiti ac adnoddau staffio yn amrywio ar draws sefydliadau statudol) y bydd yn golygu 396 awr o waith fesul sefydliad statudol, gydag amcangyfrif o gost amser staff o £7,260. Ceir 22 o awdurdodau lleol, saith Bwrdd Iechyd Lleol, y Cyd-bwyllgor Comisiynu (sy'n ymgorffori unrhyw weithgarwch comisiynu a gyflawnir gan ymddiriedolaethau'r GIG) a Chonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant. Mae hyn yn cyfateb i amcan gost cyffredinol o £236,260 i weithredu'r Cod Ymarfer.

Bydd cost hefyd o ran rheolwyr darparwyr gwasanaethau cofrestredig ac Unigolion Cyfrifol o ran eu hamser i ymgyswrtio â'r Cod Ymarfer. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £550 fesul sefydliad, gweler y tabl isod:

Galwedigaeth	Cyflog gros yr awr (Cymru, canolrif, 2024)	Cyflog gros yr awr gan gynnwys argostau (30%)	Cost i Unigolion Cyfrifol a rheolwyr o ran ymgyswrtio â'r graddau (gan
--------------	--	---	--

			ragdybio y bydd yn cymryd 10 awr)
Rheolwyr a Chyfarwyddwyr ym maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£20.87	£27.13	£271.30
Rheolwyr a Pherchnogion ym maes lechyd a Gwasanaethau Gofal	£21.45	£27.89	£278.90

[Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth a SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y gwasanaethau, ar 23 Hydref 2025, a oedd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016.

Math o wasanaeth	Nifer y gwasanaethau
Gwasanaeth Mabwysiadu	6
Gwasanaeth Lleoli Oedolion	8
Gwasanaeth Eirioli	2
Ysgol Breswyl	12
Gwasanaeth Cartref Gofal	1424
Oedolion a Phlant heb ofal nyrsio	19
Oedolion â gofal nyrsio	248
Oedolion heb ofal nyrsio	780
Cartref Plant	377
Gwasanaeth Cymorth Cartref	769
Gwasanaeth Maethu	22
Coleg Addysg Bellach	3
Asiantaeth Fabwysiadu ALI	20
Gwasanaeth Maethu ALI	22
Canolfan Breswyl i Deuluoedd	5
Ysgol Arbennig Breswyl	3
Gwasanaeth Llety Diogel	1
Gwasanaeth Preswyl Ysgol Arbennig	4
Cyfanswm	2301

Rydym yn rhag-weld y bydd y mwyafrif o'r costau hyn yn cael eu gwrthbwysu yn y dyfodol yn sgil sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau, arferion gwaith mwy effeithlon a lleihau achosion o ddyblygu. Ni ddisgwylir i'r Cod Ymarfer arwain at unrhyw newidiadau sylweddol mewn arferion gwaith ac felly, nid oes unrhyw gostau parhaus ychwanegol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

Mae'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer datblygu'r Cod Ymarfer eisoes wedi eu bodloni drwy ddefnyddio adnoddau presennol ac fe'u hystyrir yn gostau suddo a gellir felly eu hanwybyddu. Caiff y Cod Ymarfer ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru heb unrhyw gost ychwanegol. Caiff y Cyfarwyddydau eu cyhoeddi ar adran rheoli'r GIG ar wefan Llywodraeth Cymru heb unrhyw gost ychwanegol.

8. Manteision

Opsiwn un: gwneud dim – cadw'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009.

Gan mai dyma'r "opsiwn gwneud dim", byddai'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* yn cael eu cadw. Un fantais fach yw bod awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a darparwyr cartrefi gofal oedolion yn gyfarwydd â'r canllawiau statudol. Fodd bynnag, mantais fach iawn yw hynny o ystyried bod canllawiau bellach wedi dyddio, yn canolbwyntio dim ond ar gartrefi gofal oedolion, ac nid ydynt yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf 2014 a Deddf 2016. Dim ond ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio pryderon a chau cartrefi gofal oedolion y mae'r canllawiau presennol.

Opsiwn dau: Dyroddi Cod Ymarfer newydd o dan Ddeddf 2014 sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig. Cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion perthnasol yn y Cod Ymarfer (dyma'r opsiwn a ffeirir).

Bydd y Cod Ymarfer newydd yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2014 a Deddf 2016 ar gyfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, llais a rheolaeth unigol, a gwelliant parhaus. Bwriedir i'r Cod Ymarfer gael ei ystyried ochr yn ochr â'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* sy'n nodi'r egwyddorion a'r safonau ar gyfer arferion comisiynu.

Mae gan y Cod Ymarfer fwy o gyrhaeddiad gan ei fod yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn ogystal ag awdurdodau lleol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â darpariaethau perthnasol y Cod Ymarfer, gan felly ddarparu grym cyfreithiol cymaradwy ag awdurdodau lleol. Bydd y Cod Ymarfer yn gymwys i'r holl wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016.

Bydd y Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ac arweiniad i hyrwyddo dull gweithredu cyson ledled Cymru gan hefyd alluogi hyblygrwydd ar gyfer prosesau lleol a rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gydymffurfio ag un Cod Ymarfer yn hytrach na sawl dehongliad gwahanol gan yr awdurdodau lleol o'r canllawiau statudol presennol. Yn yr un modd, bydd un Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder a sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol neu Fyrddau Iechyd Lleol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddiedig eraill.

Mae'r Cod Ymarfer yn darparu canllawiau ac arweiniad ar sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad yn achos gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir, gan hyrwyddo pwysigrwydd ymwreiddio diwylliant o ddysgu a gwella parhaus. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi'r gofynion, y canllawiau a'r arferion da i liniaru materion o fewn gwasanaeth yn hwylus ac yn effeithlon cyn cyrraedd y cam uwchgyfeirio pryderon.

Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys arweiniad a chanllawiau ar ddatgomisiynu gwasanaethau ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl a chynnal eu llesiant. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod pwysigrwydd cynnal sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff. Mae'r Cod Ymarfer yn cydnabod y gall fod mwy nag un comisiynydd gwasanaeth ac yn hyrwyddo rheolaeth effeithiol ac effeithlon o brosesau datgomisiynu.

Mae'r Cod Ymarfer yn sicrhau eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau comisiynwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn cyfrannu at arferion gwaith mwy effeithlon ac yn lleihau achosion o ddyblygu.

9. Risgiau

Opsiwn un: gwneud dim – cadw'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* a ddyroddwyd yn 2009.

Gan mai dyma'r "opsiwn gwneud dim", byddai'r canllawiau statudol *Escalating Concerns with, and Closures of Care Homes Providing Services for Adults* yn cael eu cadw. Mae'r canllawiau statudol hyn bellach wedi dyddio ac nid ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2014 a Ddeddf 2016. Nid yw'r canllawiau statudol yn gyson â'r *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer*.

Mae cwmpas y canllawiau statudol yn gyfyngedig. Nid yw'n gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol nac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru fel comisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Nid yw'n adlewyrchu'r ystod lawn o wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ar gyfer oedolion a phlant sydd wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae'r canllawiau statudol presennol yn agored i'w dehongli gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG unigol yng Nghymru, gan arwain at ddull gweithredu anghyson ar draws y sector. Byddai cadw'r canllawiau statudol yn golygu y byddai angen i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal rheoleiddiedig ar draws ffiniau ymwneud â gwahanol brosesau a therminoleg leol yn ôl ardal ddaearyddol.

Mae'r canllawiau statudol yn darparu cyngor ac argymhellion yn benodol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal oedolion o'r pwynt pan gaiff pryderon eu huwchgyfeirio hyd at y posibilrwydd o gau gwasanaeth. Nid yw'r dull gweithredu hwn yn annog nac yn hyrwyddo ymyrraeth a gwella cynnar, a allai helpu i atal problemau rhag dwysáu a chynyddu ac osgoi cau gwasanaethau yn ddiangen.

Opsiwn dau: Dyroddi Cod Ymarfer newydd o dan Ddeddf 2014 sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o ran sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad, uwchgyfeirio pryderon a chau gwasanaethau, mewn perthynas â gwasanaethau rheoleiddiedig. Cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru i arfer eu swyddogaethau yn unol â'r gofynion perthnasol yn y Cod Ymarfer (dyma'r opsiwn a ffefrir).

Nid oes llawer o risg yn gysylltiedig â chyflwyno'r Cod Ymarfer. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda grŵp rhanddeiliaid ledled y sector i ddatblygu'r Cod Ymarfer. Rhwng 7 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ynghylch y Cod Ymarfer drafft. Bydd cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth yn cael eu trefnu i alluogi awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a darparwyr gwasanaeth i ymgysylltu â gofynion manwl y Cod Ymarfer.

10. Casgliad

Yn seiliedig ar werthuso costau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

11. Adolygiad ar ôl gweithredu

Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn monitro gweithrediad y Cod Ymarfer hwn a'r Cyfarwyddydau cysylltiedig o dan Ddeddf 2006 ar ôl iddynt ddod i rym ar 31 Mawrth 2026.